

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol, Nos Fawrth y 13eg o Ragfyr 2010.

Yn bresennol oedd y Cynghorwyr Dafydd Glyn Owen (Cadair), D Martin Williams, Harry Wyn Owen – Talysarn; T Les Jones – Nantlle; Hefina M W Roberts, Gwyndaf Roberts – Llanllyfni; Barry Bracegirdle, Ifan Glyn Jones, Elwyn Jones Griffith – Penygroes; Eurig Wyn Evans – Nebo.

Cynllunio

Derbyniwyd cais cynllunio ar gyfer gosod un tyrbîn wynt ar safle mast Arqiva, Nasareth am sylwadau'r Cyngor.

Caniatawyd cais am estyniad unllawr ochr yn Onllywn, Ffordd Rhiwlas, Talysarn. Caniatawyd cael mynedfa a thrac i wasanaethu Llwyn Bedw, Nasareth.

Gohebiaeth

Cadarnhawyd y byddai'r pwyllgor trwyddedu yn cyfarfod i drafod cais i ymestyn oriau agor yr Halfway Inn, Talysarn.

Cafwyd manylion Cynhadledd Ol Troed Carbon yn y Gymuned, a fydd yn cael ei gynnal Ionawr 18.

Derbyniwyd llythyr i gadarnhau bod yr adolygiad o ffiniau etholaeth wedi ei ohirio.

Adroddiadau Pentrefi.

*Penygroes Mae'r gwaith ffensio wedi ei gwblhau yng nghae chwarae Cwting, a byddwn yn gwneud cais i Gyngor Gwynedd i gyrbio'r cyfan i'r pen draw er mwyn tacluso a gorffen. Mae'r gwaith ffensio wedi tacluso'r cae yn arw.

*Cytunwyd i ruddhau'r arian a addawyd ar gyfer y system CCTV ym Mhenygroes nawr ei fod wedi cael ei osod.

*Roedd y Cyngor yn siomedig iawn o weld yr holl ysbwriel a adawyd yn y maes parcio drost y ffordd i Garej Povey dros gyfnod y gwyliau Nadolig. Roedd hyn wedi creu llanast ofnadwy, a phob clod i Gyngor Gwynedd i ymateb mor sydyn i'r gwyn a dod i glirio'r safle o fewn diwrnod.

Dysgwr y Flwyddyn

Mae'r dyddiad cau ar gyfer cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn wedi ei ymestyn i Chwefror y 5ed.